Taflen wybodaeth Hawdd ei Deall

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Gwneud cwyn am gynghorwyr lleol

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r '**Côd Ymddygiad – Gwybodaeth Gyffredinol**.'

**Chwefror 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn hawdd ei deall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n adnabod i'ch helpu.



Mae geiriau mewn **print glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae'n dweud beth mae'r geiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 15**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.ombwdsmon.cymru

**E-bost:** holwch@ombwdsmon.cymru

**Ffôn: 0300 790 0203**

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn fersiwn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys

**Am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ................ 4**

**Am y daflen wybodaeth hon ................................................ 5**

**Pwy sy'n gallu cwyno ........................................................ 8**

**Y pethau y gallwn ni eu gwneud ...................................... 10**

**Y pethau na allwn ni wneud ............................................ 11**

**Pethau i'w cofio wrth wneud cwyn ................................. 13**

**Geiriau anodd ................................................................... 15**

# Am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ni ydy swyddfa **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Rydyn ni'n delio â chwynion am:




- **Wasanaethau cyhoeddus**

> **Gwasanaethau cyhoeddus** ydy'r gwasanaethau mae'r Llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Er enghraifft: cynghorau lleol, y GIG, landlordiaid cofrestredig.




- Cynghorwyr lleol yn torri'r **Côd Ymddygiad**. Mae cynghorwyr lleol yn bobl sy'n cael eu dewis i redeg cyngor.

> Mae **Côd Ymddygiad** yn rheolau a safonau mae'n rhaid i rywun eu dilyn yn eu gwaith.



Ein bwriad ydy gwella **gwasanaethau cyhoeddus**.

# Am y daflen wybodaeth hon


Taflen wybodaeth Hawdd ei Deall

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gwneud cwyn am gynghorwyr lleol

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r '**Côd Ymddygiad – Gwybodaeth Gyffredinol**.'


**Chwefror 2024**

Mae'r daflen wybodaeth hon am wneud cwyn am gynghorydd lleol.



Gallwch gwyno am gynghorwyr o:

- Awdurdodau lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Panelau heddlu a throsedd yng Nghymru





Mae'n rhaid i bob cynghorydd yn y sefydliadau hyn ddilyn eu **Côd Ymddygiad**.



Mae'r **Côd Ymddygiad** yn dweud sut y dylai cynghorwyr ymddwyn:

- tra byddan nhw'n gweithio fel cynghorydd
- ac weithiau yn eu bywyd personol hefyd.




Os ydych chi'n meddwl bod cynghorydd wedi torri'r **Côd Ymddygiad**, gallwch gwyno.



Er enghraifft, efallai bydd cynghorwyr yn torri'r Côd Ymddygiad trwy:

- Ymddwyn mewn ffordd sy'n gwneud i'r sefydliad edrych yn wael



- Defnyddio eu safle mewn ffordd annheg. Er enghraifft, er mwyn cael rhywbeth iddyn nhw eu hunain
- Peidio â defnyddio adnoddau'r sefydliad yn y ffordd iawn
- Peidio â bod yn onest ac yn agored am waith fyddai'n fanteisiol iddyn nhw'n bersonol
- Bwlio.



- Peidio â thrin pawb yn gyfartal
- Rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb reswm da.



Mae llawer o gwynion rydyn ni'n eu cael am gynghorwyr:

- yn bod yn ddigywilydd

- ac yn dweud pethau sydd wedi cynhyrfu rhywun.




Fel arfer gallwch gael copi o **Gôd Ymddygiad** y sefydliad:

- ar wefan y sefydliad

- neu trwy gysylltu â swyddog monitro  neu glerc y sefydliad.

# Pwy sy'n gallu cwyno



Gall unrhyw un wneud cwyn. Cyn belled â'ch bod chi wedi gweld yr ymddygiad rydych chi'n cwyno amdanoch chi'ch hun.

## Cynghorwyr yn cwyno am gynghorwyr eraill

**Os ydych chi'n gynghorwr:**



Mae'n rhaid i chi ddilyn proses gwyno eich sefydliad.



Dylech chi wneud eich cwyn i'ch swyddog monitro yn gyntaf.  Os oes gennych chi un.



Dylech chi geisio cael ateb i'ch cwyn yn lleol yn gyntaf heb i chi orfod ein cynnwys ni.



Ddylech chi ddim gwneud cwynion dim ond er mwyn achosi problemau.



I gael mwy o wybodaeth, gallwch siarad â chlerc neu swyddog monitro eich sefydliad.

# Y pethau y gallwn ni eu gwneud



Byddwn yn penderfynu a fyddwn ni’n chwilio i mewn i’ch cwyn neu beidio.

**Fel arfer gallwn chwilio i mewn i’ch cwyn:**





- os oes prawf bod y **Côd Ymddygiad** wedi cael ei dorri



- ac os **ymchwiliad** neu weithred pellach fyddai orau ar gyfer y cyhoedd.

> Mae **ymchwiliad** yn meddwl chwilio i mewn i’r ffeithiau i weld beth ddigwyddodd. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn os ydyn ni’n meddwl efallai y bydd problem ddifrifol.




Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â’r ffordd rydyn ni’n delio â chwynion yn y daflen wybodaeth yma: Beth rydyn ni’n wneud â’ch cwyn am gynghorwyr lleol.

# Y pethau na allwn ni wneud



Allwn ni ddim diswyddo cynghorwyr.

Allwn ni ddim gofyn i gynghorwyr:



- ymddiswyddo




- na gwneud unrhyw fath o daliad i wneud iawn am eu camgymeriad.

Os oes angen, byddwn yn anfon y cwyn at:




- **Banel Dyfarnu Cymru**

Mae **Panel Dyfarnu Cymru** yn llys arbennig sy'n delio â'r cynghorau a'r awdurdodau cenedlaethol sy'n torri'r Côd Ymddygiad.



- neu **Bwyllgor Safonau Lleol**.

Mae **Pwyllgor Safonau Lleol** yn grŵp ffurfiol sy'n cael ei roi ar waith yn lleol gan gynghorau. Fe allan nhw ddelio â chyngorwyr sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

# Pethau i'w cofio wrth wneud cwyn



Mae'n rhaid i'ch cwyn fod wedi'i ysgrifennu. Mae'n well defnyddio'r ffurflen ar ein gwefan yn fan hyn: www.ombwdsmon.cymru/cwyn



I gael help i lenwi'r ffurflen, gallwch ffonio 0300 790 0203.




Mae'n rhaid i chi gynnwys digon o brawf i gefnogi eich cwyn.



Efallai y gwnawn ni gysylltu â chi os ydyn ni angen mwy o brawf.




Pan fyddwch chi'n gwneud cwyn, mae'n rhaid i chi roi eich enw.




Mae'n rhaid i chi ddeall y byddwn ni'n rhannu manylion eich cwyn gyda'r cynghorydd.




Efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthyn ni am y prawf sydd gennych wyneb yn wyneb. Os nad ydych chi'n **chwythu'r chwiban**.



Mae **chwythu'r chwiban** yn digwydd pan fydd aelod o staff yn pasio gwybodaeth ymlaen:

- am eu sefydliad
- oherwydd bod rhywbeth wedi cael ei wneud o'i le.


Easy Read Factsheet

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Beth rydyn ni'n ei wneud gyda eich cwyn am gorff cyhoeddus**

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru**.'

**Chwefror 2024**

Mae mwy o wybodaeth am y ffordd rydyn ni'n delio â chwynion yn y daflen wybodaeth yma: Beth byddwn ni'n wneud â'ch cwyn am gynghorwyr lleol.

# Geiriau anodd

### Côd Ymddygiad.

Mae Côd Ymddygiad yn rheolau a safonau mae'n rhaid i rywun eu dilyn yn eu gwaith.

### Chwilio i mewn neu ymchwiliad

Mae ymchwiliad yn meddwl chwilio i mewn i'r ffeithiau i weld beth ddigwyddodd. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn os ydyn ni'n meddwl efallai y bydd problem ddifrifol.

### Chwythu'r chwiban

Mae chwythu'r chwiban yn digwydd pan fydd aelod o staff yn pasio gwybodaeth ymlaen:

- am eu sefydliad
- oherwydd bod rhywbeth wedi cael ei wneud o'i le.

### Gwasanaethau cyhoeddus

Gwasanaethau cyhoeddus ydy'r gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Er enghraifft: cynghorau lleol, y GIG, landlordiaid cofrestredig.

### Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn llys arbennig sy'n delio â'r cynghorau a'r awdurdodau cenedlaethol sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

### Pwyllgor Safonau Lleol

Mae Pwyllgor Safonau Lleol yn grŵp ffurfiol sy'n cael ei roi ar waith yn lleol gan gynghorau. Fe allan nhw ddelio â chynghorwyr sy'n torri'r Côd Ymddygiad.